

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 23 Hydref 2013

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gareth Price
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8409
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Agenda

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:30)

2 Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (9:30–10:00)

(Tudalennau 1 - 16)

FIN(4)-18-13 Papur 1

FIN(4)-18-13 Papur 2

FIN(4)-18-13 Papur 3

Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Sally Hughes, Cyfriethiwr i Lywodraeth Cymru

Mark Osland, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru (10:00–11:00)

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Cymru

Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol

Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol

4 Cyllideb Ddrafft y Llywodraeth Cymru 2014–15 (11:00 – 11:10)

(Tudalennau 17 - 25)

FIN(4)-18-13 Papur 4

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (11:10)

Eitemau 6 a 7

6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15: Adolygu'r dystiolaeth a gafwyd (11:10-11:40)

7 Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru): Trefn Ystyried Cyfnod 2 (11:40)



Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/MD/0988/13

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Hydref 2013

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich gwahoddiad i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid mewn sesiwn anffurfiol ar 23 Hydref 2013.

Cyn i mi ymddangos, roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i mi gyflwyno papur sy'n ystyried rhai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn y cyfarfod llawn.

Rwy'n nodi'n arbennig y farn helaeth a fynegwyd yn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1 bod angen craffu ar lefel uchel, gan ystyried Bil Cyllid y GIG (Cymru) (o ystyried defnyddio'r broses 'garlam') a chyllid Byrddau Iechyd Lleol yn fwy cyffredinol. Yn fy mhapur, rwy'n esbonio sut bydd y fframwaith cynllunio newydd sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Bil yn galluogi fy swyddogion a mi i fonitro a chraffu ar gynlluniau a materion y Byrddau Iechyd Lleol yn fwyfwy effeithiol.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth yn y llythyr a'r papur hwn yn fuddiol i chi a'r Pwyllgor, ac rwy'n edrych ymlaen at drafod y materion gyda chi'n fanylach ar 23 Hydref.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Papur Briffio

Pwyllgor Cyllid

Dyddiad: 23 Hydref 2013

Amser: 9:30 -10:00

Lleoliad: Senedd

Teitl: Bil Cyllid y GIG (Cymru)

Diben

1. Cyflwyno papur briffio i'r Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau Bil Cyllid y GIG (Cymru), yn cynnwys:
 - hyblygrwydd ariannol
 - goddefiant
 - monitro gwariant Byrddau Iechyd Lleol

Hyblygrwydd

Dyletswydd Dreigl 3 Blynedd

2. Mae'r drefn ariannol dreigl dros gyfnod o 3 blynedd, a fydd yn sicrhau hyblygrwydd ariannol ar gyfer pob blwyddyn ar ôl blwyddyn 1, yn ymwneud ag amseriad yn hytrach na chyfanswm y gofynion adnoddau sydd eu hangen i gyfateb i broffil gwariant BILlau dros y tair blynedd. Mae cynlluniau BILlau yn bethau sy'n newid a bydd angen i Fyrddau ddiweddarau eu Cynlluniau Tymor Canolig i adlewyrchu newidiadau yn anghenion gwasanaethau ac amgylchiadau fel bod yr hyblygrwydd ariannol parhaus hwn yn gydnaws â'r cynlluniau treigl hyn.
3. Bydd BILlau yn diweddarau a chymeradwyo'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig bob blwyddyn, a bydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r cynlluniau os oes adnoddau'n cael eu symud o un flwyddyn i'r llall. Felly, y terfyn adnoddau perthnasol a ddefnyddir yn y terfynau cyfanredol ar gyfer y ddyletswydd ariannol dreigl 3 blynedd fydd cyfanswm y terfynau diweddaraf y cytunwyd arnynt o flwyddyn 1 o'r holl Gynlluniau Tymor Canolig Integredig treigl perthnasol, ac nid o reidrwydd y terfynau a bennwyd ar ddechrau'r cynllun cyntaf. Felly, ceir hyblygrwydd wrth symud ymlaen, ac nid ar gyfer blynyddoedd 1 a 2 yn unig yn sgil dechrau'r ddyletswydd newydd.

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig						
Cynllun A - 2014/15 – 2016/17						
Cynllun B - 2015/16 – 2017/18						
Cynllun C - 2016/17 – 2018/19						
Cynllun D - 2017/18 – 2019/20						
Terfyn Adnodd Refeniw						
Cynllun A - 2014/15 – 2016/17	Blwyddyn 1					
Cynllun B - 2015/16 – 2017/18		Blwyddyn 1				
Cynllun C - 2016/17 – 2018/19			Blwyddyn 1			
Cynllun D - 2017/18 – 2019/20				Blwyddyn 1		
Cynllun E - 2018/19 – 2020/21					Blwyddyn 1	
Cynllun F - 2019/20 – 2021/22						Blwyddyn 1
Mesurau Asesu'r Ddyletswydd Ariannol						
Dyletswydd Dreigl 3 Blynedd	X					
		X				
			X			
				X		

4. Yn y darlun uchod, bydd y Ddyletswydd Dreigl 3 Blynedd yn cael ei hasesu yn erbyn y Terfyn Adnodd Refeniw cronol – hynny yw ar gyfer yr asesiad cyntaf ar ddiwedd 2016/17 y Terfyn Adnodd Refeniw Blwyddyn 1 ar gyfer Cynllun A, Terfyn Adnodd Refeniw Blwyddyn 1 ar gyfer Cynllun B a Therfyn Adnodd Refeniw Blwyddyn 1 ar gyfer Cynllun C. Felly, bydd y terfyn adnoddau perthnasol ar gyfer pob blwyddyn, sef Blwyddyn 1 pob Cynllun, yn ymgorffori unrhyw hyblygrwydd ariannol y cytunwyd arno rhwng blynedd fel y cytunwyd ym mhob cynllun cymeradwy. Bydd yr hyblygrwydd hwn i symud adnoddau o un flwyddyn i'r llall ar gael yn barhaus yn seiliedig ar y ddisgyblaeth a'r broses o gyflwyno a chymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig bob blwyddyn.
5. Yn ystod y gwaith o ddatblygu polisi'r Bil hyblygrwydd ariannol, ystyriwyd nifer o opsiynau yn cynnwys dyletswydd dreigl 3 blynedd yn ogystal â'r ddyletswydd sefydlog 3 blynedd.
6. Y prif reswm dros ddewis y ddyletswydd dreigl 3 blynedd oedd er mwyn cyd-fynd ag amserlenni'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Bydd BILlau, ar sail flynyddol dreigl, yn adolygu, diweddarau a chymeradwyo'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Bydd y cyllid hysbysedig terfynol a ddyrennir bob blwyddyn i'r BILlau yn gysylltiedig â blwyddyn gyntaf pob Cynllun Tymor Canolig Integredig

treigl sydd wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn gallu symud cyllid rhwng blynyddoedd yn barhaus i gefnogi cynlluniau y cytunwyd arnynt ac sydd wedi'u proffilio. Yn unol â hyn, roedd rhaid alinio'r mesur dyletswydd ariannol, sef gwariant cronol yn erbyn y cyllid cronol a ddyrannwyd, i'r cynlluniau cymeradwy a'r cyllid hyblyg a ddyrannwyd dros y 3 blynedd honno.

7. Mae cynllunio'n broses barhaus ac mae angen iddi adlewyrchu'r heriau a newidiadau sy'n codi o newidiadau demograffig a newidiadau i wasanaethau. Gan gymryd y byddai BILlau wedi diweddarau a chymeradwyo cynlluniau ym mlynyddoedd 2 a 3, ni fyddai wedi bod yn briodol pennu'r mesur dyletswydd ariannol ar gynllun blwyddyn 1 cynharach a gyflwynwyd.
8. Ymhellach, byddai cymhwyso dyletswydd ariannol dros gyfnod sefydlog o 3 blynedd yn golygu, i bob pwrpas, bod y broses o asesu perfformiad ariannol BILl yn dechrau o'r newydd bob 3 blynedd. Mae'n bwysig bod BILlau'n cael eu hasesu'n barhaus ac nad yw perfformiad gwael yn y blynyddoedd cynt yn cael ei ddiystyru neu ei anwybyddu.

Tanwario gan Fyrddau Iechyd Lleol

9. Mae'r Fframwaith Cynllunio a'r hyblygrwydd ariannol yn seiliedig ar symud adnoddau'n hyblyg i gyfateb i broffiliau cynlluniau gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys achosion arfaethedig o orwario wedi'i gynllunio a thanwario wedi'i gynllunio. Hwyrach y bydd rhai BILlau yn bwriadu proffilio buddsoddiad yn gyntaf i arbed maes o law, tra bydd eraill yn bwriadu arbed yn gyntaf a buddsoddi maes o law. Yr un fydd y broses sicrhau a chymeradwyo, beth bynnag fydd proffil y cynllun.
10. Bydd unrhyw newidiadau i'r proffil, boed ar y dechrau neu'r diwedd, yn cael eu hasesu'n drylwyr gan fod natur hylaw a'r gallu i gyflawni'r camau gweithredu yn hollbwysig.

Goddefiant

11. Gellir diffinio'r hyblygrwydd ariannol a gyflwynir yn y Bil fel hyblygrwydd wedi'i gynllunio i gefnogi cynlluniau cymeradwy sydd wedi'u proffilio dros 3 blynedd. Mae'r mater o lefelau goddefiant wedi'i gyflwyno yng nghyd-destun hyblygrwydd heb ei gynllunio, neu ddiwedd blwyddyn. Mae'n rhoi ychydig bach o oddefiant ychwanegol lle methwyd y targed ariannol o drwyh blewyn a lle cydnabyddir bod torri dyletswydd ariannol statudol yn arwain at ganlyniadau difrifol. Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd lefelau goddefiant ar gyfer BILlau.
12. Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG lefelau goddefiant penodol ar hyn o bryd, sy'n cael eu disgrifio fel trothwy perthnasedd, ac mae'r lefelau hyn yn gymwys i'w

dyletswydd ariannol. Esbonnir y trothwy hwn mewn Cyfarwyddyd, drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 049.

13. Gan fod BILlau'n cael eu diffinio, yn ôl dosbarthiadau sector cyhoeddus y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel cyrff "Llywodraeth Ganolog" at ddibenion Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau, nid yw'r goblygiadau ymarferol ar gyfer darparu lefelau goddefiant yn syml. Caiff alldro ariannol BILlau ei gyfuno yn adnoddau cyfunol GIG Cymru a'r DHSS yn ei ddyraniad Cyllideb blynyddol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai unrhyw gorwario a/neu oddefiant yn cael eu cynnwys yn yr adnoddau cyfunol hyn hefyd. Felly, goblygiadau ymarferol cynnwys lefelau goddefiant yw byddai'n rhaid i'r DHSS gadw cyllid ychwanegol wrth gefn i gyd-fynd â lefel goddefiant a ddarperir.
14. O ganlyniad, ni ellir cymhwyso goddefiant ariannol i sefyllfaoedd alldro diwedd blwyddyn heb risg. Byddai unrhyw wariant ychwanegol yn sgil caniatáu goddefiant yn gost annisgwyl ychwanegol ar Brif Grŵp Gwariant cyfunol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae sut bydd unrhyw oddefiant yn cael ei gyfrif, a'i archwilio, yng nghyfrifon BILlau a chyfrifon adrannau yn cael ei asesu.
15. Er y bydd angen i BILlau fod yn gwbl siŵr o'r lefelau goddefiant ar gyfer y ddyletswydd ariannol, mae angen hyblygrwydd i newid lefelau goddefiant, ar ôl rhybudd priodol, oherwydd hwyrach y bydd angen i'r cydbwysedd rhwng cadw arian wrth gefn neu ryddhau arian newid dros amser. Felly, ni fyddai'n ymarferol pennu lefel benodol yn y Bil.

Monitro Gwariant BILlau

16. I ategu'r Fframwaith Cynllunio newydd, bydd Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog newydd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol. Byddant yn cynnwys gofynion newydd ar fyrddau i ddatblygu, craffu ar a chymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig cytbwys. Bydd y Fframwaith Cynllunio, a gyhoeddir ddiwedd mis Hydref 2013, hefyd yn egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau BILlau a Llywodraeth Cymru o ran perchenogaeth, craffu, sicrwydd, monitro a chymeradwyo.
17. Mae monitro cynlluniau yn elfen annatod o'r dull disgybledig sydd ei angen i sicrhau bod y fframwaith cynllunio yn effeithiol. Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y monitro a bydd yn cynnwys system drylwyr o gadw cydbwysedd. Y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cymeradwy newydd fydd prif ffocws yr adolygiadau misol o berfformiad BILlau a byddant yn cael eu hategu gan gamau gweithredu gydol y flwyddyn ariannol i sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb â'r cynlluniau gwasanaeth, perfformiad ac ariannol.

18. Bydd y broses monitro ac adrodd hon yn nodi rhybuddion cynnar nad yw BILL yn bodloni ei gynlluniau, yn cynnwys targedau ariannol. Fel hyn, bydd modd olrhain y sefyllfa, adrodd yn ei chylch a chymryd camau cynyddol ddifrifol drwy'r mecanweithiau adrodd sefydledig rheolaidd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r trefniadau rheoli perfformiad wedi'u cryfhau a'u hintegreiddio gyda chyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni rheolaidd gyda phob BILL ac Ymddiriedolaeth, ac mae fy swyddogion yn arolygu'r cyfan drwy Fwrdd Cyflawni Integredig misol.

19. Fel y nodwyd yn adroddiad Cyllid Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru:

“Mae'r Adran wedi atgyfnerthu'r broses ffurflenni monitro misol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ffordd dda o sicrhau y cyflwynir adroddiadau manwl ac amserol ar sefyllfa ariannol cyrff y GIG yn ystod y flwyddyn a'u rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn. Mae'n rhoi darlun amserol i'r Adran o'r GIG cyfan, y gall ymateb yn gyflym iddo os bydd angen.”


20. Mae siartiau llif wedi'u cynnwys fel rhan o'r papur briffio hwn i ddangos y newid a gyflwynir gan y fframwaith cynllunio dan ddyletswydd newydd a'r weithdrefn ar gyfer cymryd camau cynyddol ddifrifol:

- Mae Atodiad A yn nodi'r broses gyfredol ar gyfer cynllunio, cyfrifon a'r ddyletswydd ariannol.
- Mae Atodiad B yn dangos yr un peth, ond dan y ddyletswydd ariannol newydd.
- Mae Atodiad C yn nodi'r trefniadau cymeradwyo a chymryd camau cynyddol ddifrifol a fyddai ar waith i ategu'r ddyletswydd newydd.


Mae nifer o faterion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth Cam 1 yn cael eu hystyried a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd i'r Aelodau.

Flow Chart to represent the current processes and arrangements.

Planning Process




Accounts and Financial Duty Process



Flow Chart for the process and arrangements once the NHS Finance (Wales) Bill is enacted.


Planning Process

Accounts and Financial Duty Process



Approvals and escalation flow chart once NHS Finance (Wales) Bill enacted

Start



Submission of Board approved LHB plans to Welsh Government by 31 January 2014

Welsh Government Approval?

As per Delivery Framework the escalation, to level 1, 2, 3 or 4 will be subject to the assessment of the state of the submitted plan, and on the judgement of necessary action to deliver a robust and appropriate balanced plan.

Initial Board approved plan not approved by Welsh Government.

Escalation Action
Welsh Government would:

- Confirm with LHB that plan not approved;
- Confirm that, pending resubmission and approval of balanced 3 year plan, that Year 1 Revenue Resource Limit would remain as £1,000m(as per Appendix 2 in EM);
- Require Board to resubmit balanced 3 year plan within a month;
- Detail any specific requirements highlighted in the review of the original submitted LHB plan and any recommendations for support; and
- Detail any specific requirements relating to the Year 1 plan pending resubmission and approval of balanced 3 year plan.

Subject to a Board approved updated plan being submitted by end of April 2014 the following could apply following Welsh Government reconsideration of plan within 2 weeks of receipt:

- Welsh Government approval – funding adjustments agreed and move onto the plan monitoring arrangements; OR
- Welsh Government not approved.

Resubmitted Board approved plan not approved by Welsh Government

Escalation Action

- escalated from support to intervention – action will be subject to assessment of how close/far the LHB is from a approvable balanced plan
- Boards to resubmit plan by end of May 2014
- in setting out escalation Welsh Government would highlight consequential of continued non compliance on Board and Board members, including impact on:
 - Chair's position
 - Chief Executive position as Accountable Officer.

2nd Resubmitted Board approved plan not

Escalation Action
NHS Wales Chief Executive who to determine actions and intervention, including any recommendations to Minister regarding powers available to the Welsh Government through the NHS (Wales) Act 2006, S26-28.

The progress from Level 1 to Level 3 will need to be in a timely manner and would be expected to be completed by end of June 2014.

Welsh Government Approval?

Financial Flexibility issued via Recoverable Revenue Resource Limit (RRRL) adjustment

Scenario 1

The Board responsibility for presenting and approving the plan will be both set out by Direction and will be included within the Board's Standing Orders and Standing Financial Instructions.

- The Board will be in breach of their own Standing Orders if plan not finalised and approved.
- The Chair has personal responsibility to ensure that matters Reserved for the Board are dealt with by the Board in a timely manner and in line with Standing Orders.
- The Chief Executive has personal responsibility to ensure that Integrated Medium Term Plan 2014/15 to 2016/17, including balanced Medium Term Financial Plan 2014/15 to 2016/17 is presented in a timely manner to the Board for approval.

Where the above requirement has not been met the initial escalation will be, in line with the Delivery Framework to level 4, direct to NHS Wales Chief Executive who will determine actions which may include the following:

- Meeting required with Chair, Vice Chair, CEO, Board Secretary and relevant Executives.
- Introduction of 'special measure' arrangements.
- Review of executive effectiveness.
- Review of Board effectiveness.

The actions will include strict timetable with weekly monitoring, and further escalation and intervention as appropriate.

Tudalen 9



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Epost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 16^{eg} Hydref 2013
Ein cyf: HVT/1975/fgb
Tudalen: 1 o 5

Annwyl Jocelyn

BIL CYLLID Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi 2013, lle y gwnaethoch ofyn fy marn am Fil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar y dyddiad hwnnw, gan ddefnyddio'r weithdrefn ddeddfwriaethol garlam.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau, a gobeithio y bydd fy safbwyntiau o gymorth i'ch Pwyllgor yn ystod y broses graffu.

Yn gyffredinol, croesawaf y bwriadau sy'n sail i'r Bil, sy'n ceisio ymdrin â phryderon a godwyd gennyf droeon yn fy adroddiadau blynyddol ar Gyllid GIG Cymru¹ ac hefyd argymhellion blaenorol a wnaed i Lywodraeth Cymru gan eich Pwyllgor chi ac hefyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn arbennig, cymeradwyaf fwriad cyhoeddedig Llywodraeth Cymru i greu gofyniad i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) ddatblygu cynlluniau tymor canolig integredig, craffu arnynt a'u cymeradwyo, gan gynnwys cynlluniau ariannol tymor canolig mantoledig, a thrwy hynny gyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd wedi'i reoli. Bu'r diffyg cynlluniau cwbl integredig o fewn GIG Cymru, gan ddwyn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau, cyllid a chynllunio'r gweithlu ynghyd, yn wendid sylweddol ers amser ac mae'n dda o beth bod ymdrechion ar waith i ymdrin â hynny. Dylai'r gofyniad i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cynlluniau integredig y BILlau helpu i sicrhau bod lefel briodol o gadernid a her yn rhan o'r broses gynllunio, a dylai hefyd helpu i ymdrin â materion Cymru gyfan a lleihau enghreifftiau o feddylfryd seilo.

¹ **Cyllid Iechyd 2012-13 a thu hwnt** (cyhoeddwyd 16 Gorffennaf 2013)
http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/NHS_Finances_welsh_web.pdf

Cyllid Iechyd (12 Gorffennaf 2012)
http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/NHS_Finances_167A2012_Welsh_2.pdf

Mae'n bwysig cydnabod bod cyllid y GIG yn gymhleth a bod newidiadau cyfrifyddu cymharol syml yn annhebygol, ynddynt hwy eu hunain, o ddarparu atebion cynhwysfawr. Felly hoffwn wneud sylwadau ar natur y newidiadau arfaethedig i'r gyfundrefn ariannol, gan nodi fod y sylwadau hyn i raddau yn adlewyrchu'r amrywiol bwyntiau a wnaed gan Aelodau yn ystod y Ddadl Lawn ar egwyddorion cyffredinol y Bil a gynhaliwyd ar 8 Hydref.

Bûm o'r farn ers amser nad yw'r gyfundrefn ariannol bresennol ar gyfer y saith BILL yng Nghymru yn addas at y diben. Nid wyf o'r farn bod ei gwneud yn ofynnol i bob BILL fyw o fewn terfynau adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol wedi'u pennu ymlaen llaw yn addas fel disgyblaeth ariannol ar gyfer sefydliadau cymhleth sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd rheng flaen wedi'u llywio'n bennaf gan asesiadau clinigol o angen yn seiliedig ar alw.

Ar hyn o bryd, byddai croesi unrhyw derfyn adnoddau (hyd yn oed o ddim ond £1) yn arwain at sefyllfa lle y byddai fy marn archwilio ar reoleidd-dra cyfrifon blynyddol BILL yn awtomatig yn farn amodol, ac ni ellir cario unrhyw danwariant gan FILl ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf, yn lle hynny rhaid ei ildio. Mae'r ffocws canlyniadol ymhlith y BILLau ar yr hyn y cyfeirir ato'n aml fel '*glanio jet jwmbo ar stamp*' yn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac yn esgor ar ymddygiad amhriodol. Er enghraifft:

- Mae pob BILL yn anelu'n gyntaf at sicrhau ei sefyllfa ariannol flynyddol ei hun, yn hytrach na chydweithredu â chyrrff eraill y GIG i sicrhau gwell canlyniadau i gleifion;
- Mae'r defnydd o derfynau adnoddau blynyddol yn gorfodi pob BILL i ganolbwyntio ar y byrdymor, gan esgor ar sefyllfa gyffredinol lle mae'r Bwrdd a'r uwch reolwyr yn rhoi llawer llai o ystyried i waith cynllunio ariannol tymor canolig a strategol;
- Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn hanesyddol wedi darparu cyllid adnoddau ychwanegol i'r BILLau yn ystod y flwyddyn wedi arwain at achosion o ymddygiad amhriodol wrth ragweld alldro ar ddiwedd y flwyddyn, gan gredu, yn ôl pob tebyg, y bydd y rhagolygon eu hunain yn arwain at lefelau uwch o gymorth ariannol ychwanegol;
- Mae'r un patrwm o barhau i achub croen y BILLau yn ystod y flwyddyn hefyd wedi arwain at sefyllfa lle na fyddant yn anelu at gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd mewn ffordd mor drwyadl ag y byddent wedi gwneud fel arall, unwaith eto gan gredu y darperir arian ychwanegol;
- Gall y ffaith na ellir cadw arian cyfalaf nas gwariwyd ar gyfer y flwyddyn ganlynol arwain at agwedd o'i 'ddefnyddio yn hytrach na'i gollu' pan fydd BILLau yn wynebu penderfyniadau gwariant ar ddiwedd y flwyddyn, a all roi'r nod o sicrhau gwerth da am arian ym maes caffael a chontractau cyfalaf y GIG yn y fantol.

Am y rhesymau hyn, rwyf yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i symud o ddefnyddio derfyn adnoddau blynyddol ar gyfer pob BILL, a'i ddisodli â therfyn treigl tair blynedd a ddaw'n weithredol o flwyddyn ariannol 2014-15.


Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau ymarferol i'r trefniadau newydd arfaethedig. Mae hyn oherwydd, o'r drydedd flwyddyn ymlaen (hy o 2016-17), bydd pob BILL bob amser yn wynebu trydedd flwyddyn unrhyw gylch ariannu tair blynedd unigol. Yr adnoddau a fydd ar gael ar gyfer BILL am y flwyddyn ariannol honno, yn y bôn, fydd gweddill yr adnoddau a ddyrannwyd sy'n parhau heb eu gwario o'r ddwy flynedd flaenorol o'r cynllun tair blynedd, ar ôl ystyried unrhyw arian ychwanegol ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 o'r cyfnod cynllunio hwnnw y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu wrth gymeradwyo cynlluniau tair blynedd dilynol. Felly ymddengys mai dim ond ychydig bach iawn yn fwy fyddai'r cyfleoedd ar gyfer hyblygrwydd ariannol o dan y trefniadau a nodir yn y Bil, o 2016-17 ymlaen, yn ymarferol na'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i'r BILLau. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd yn bosibl i'r BILLau, o dan y trefniadau newydd, gario unrhyw danwariant ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol, yn hytrach na gorfod eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.


Nodir effeithiau ymarferol y cynigion a gynhwysir yn y Bil ar y broses archwilio o asesu cydymffurfiaeth â'r terfynau adnoddau dynodedig (y farn archwilio ar 'reoleidd-dra') yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: Cynllunio ariannol tair blynedd BILLau a'r effaith ar y farn archwilio ar Reoleidd-dra

Yn y llinell amser enghreifftiol hon, mae 'X' yn nodi'r pwynt pan gynhelir asesiad archwilio o ran p'un a yw BILL wedi llwyddo i gadw o fewn ei derfyn adnoddau tair blynedd.

Felly cynhelir yr asesiad archwilio cyntaf o'r fath ar 31 Mawrth 2017, o ran y cyfnod tair blynedd o 2014-15 hyd at 2016-17, ac wedyn bob 31 Mawrth wedi hynny.



Ar 31 Mawrth 2017, y terfyn adnoddau tair blynedd a ddefnyddir yn yr asesiad archwilio fydd swm mathemategol yr adnoddau a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn gyntaf pob un o'r cynlluniau treigl tair blynedd o 1 Ebrill 2014 (fe'u nodir fel .

Bydd unrhyw achos o groesi'r terfyn adnoddau tair blynedd yn arwain at farn archwilio amodol ar Reoleidd-dra.

O ganlyniad, prif effaith ymarferol y Bil fydd rhoi dwy flynedd 'i anadlu' i'r BILlau (yn 2014-15 a 2015-16) lle na fydd yn ofynnol iddynt weithredu o fewn terfyn adnoddau blynyddol, a lle na chynhelir unrhyw asesiad archwilio allanol o berfformiad ariannol yn erbyn terfyn anoddau statudol. O 2016-17, bydd yr asesiad archwilio blynyddol presennol yn ailddechrau, ond gan edrych yn ôl ar gyfanswm gwariant pob BILl dros y tair blynedd diwethaf, yn hytrach na'i wariant blynyddol.

Yn fy marn i, bydd yn hanfodol i bob BILl wneud y defnydd gorau o'r cyfle hwn 'i anadlu' i lywio'r newidiadau angenrheidiol o ran trawsnewid gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan y GIG yn y dyfodol ar sail costau sy'n ariannol gynaliadwy. Nodaf y cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog Cyllid yn ei Chyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15 y bydd arian ychwanegol sylweddol ar gael i GIG Cymru, a byddwn yn annog pob BILl, unwaith y dyrennir y cyllid hwn, i'w ddefnyddio i sicrhau'r effaith fwyaf posibl wrth gefnogi eu hagendâu trawsnewid, ad-drefnu a darparu unigol (a chyfunol).

Wrth gwrs, bydd yn dal yn bosibl, fel sy'n wir ar hyn o bryd, i Lywodraeth Cymru roi arian ychwanegol i BILlau yn ystod y flwyddyn ariannol ac i addasu terfyn adnoddau pob BILl yn unol â hynny. Mae addasiadau o'r fath i derfynau adnoddau yn arfer gwaith cyffredin, gan eu bod yn deillio o 'symiau canlyniadol Barnett' o Ddatganiad Hydref y Canghellor ac ati, ac felly nid yw'r addasiadau hyn ar hyn o bryd yn deillio o lifoedd ariannu 'achub'.

Fel ar hyn o bryd, y terfyn adnoddau terfynol a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer BILl fydd y terfyn y bydd yr archwilydd yn ei ddefnyddio i asesu p'un a fu unrhyw achos o fynd yn groes i ofynion gwariant yn ei erbyn. Felly, mewn gwirionedd, Llywodraeth Cymru o hyd fydd yn penderfynu (naill ai drwy ganiatáu neu wrthod addasu'r terfyn adnoddau) p'un a yw'n awyddus i weld barn amodol ar gyfrifon BILl am groesi'r terfyn adnoddau, gan nad oes gan yr archwilydd allanol unrhyw ddisgresiwn yn hyn o beth. Nodaf, hyd yn hyn, nad wyf wedi gorfod cyflwyno barn archwilio amodol ar reoleidd-dra ar gyfrifon unrhyw un o'r saith BILl, gan fod Llywodraeth Cymru bob amser wedi dewis rhyddhau adnoddau ychwanegol i BILlau sydd wedi gorwario.

Nid oes unrhyw welliannau penodol i'r Bil yr hoffwn eu cynnig i'ch Pwyllgor eu hystyried. Unwaith y caiff y Bil ei ddeddfu, fy mwriad yw cyhoeddi adroddiad naratif ochr yn ochr â'm barn archwilio ar gyfrifon blynyddol pob BILl o 2014-15 ymlaen, gan gyflwyno sylwadau ar statws cyfredol eu cynlluniau gwasanaeth, ariannol a gweithlu integredig tair blynedd, y cynnydd a wneir yn erbyn y cynlluniau hynny ac unrhyw gamau adferol sy'n cael eu cymryd, naill ai i sicrhau bod unrhyw amrywiadau a nodwyd yn gyson â'r cynlluniau hynny neu i ddiwygio'r cynlluniau eu hunain a'u hailgyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.

Rwyf yn rhagweld y bydd y sylwebaeth annibynnol hon gan yr archwilydd allanol o gymorth i bob un o'r BILlau eu hunain ac y bydd hefyd yn werthfawr i Lywodraeth Cymru wrth iddi oruchwylio GIG Cymru. Bydd fy adroddiadau ar gyfrifon blynyddol y BILlau hefyd yn helpu i wella gallu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Bwyllgorau i graffu ar berfformiad pob BILl ac i sicrhau eu bod yn atebol.

Yn olaf, nodaf o'r ddadl a gafwyd ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Hydref fod y Gweinidog wedi ymrwymo i ystyried p'un a fyddai'n bosibl cyflwyno trefniadau 'hyblygrwydd diwedd y flwyddyn' neu 'oddefgarwch' o fewn darpariaethau'r Bil. Mae fy staff yn trafod y materion hyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ond credaf y bydd yn anodd iawn cyfuno unrhyw raddau o hyblygrwydd â'r cadernid angenrheidiol sydd ynghlwm â gorfodi terfynau adnoddau ffurfiol, naill ai ar sail flynyddol neu ar sail bob tair blynedd. Yn yr un modd, bydd yn rhaid aros am ganlyniad ymateb Llywodraeth y DU i Gomisiwn Silk cyn y gellir rhoi ystyriaeth fanwl i awgrymiadau y dylid rhoi pwerau benthyca i BILlau, tybiaf, gan y bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar p'un a gaiff Gweinidogion Cymru eu hunain fwy o bwerau benthyca na'r rheini sydd ganddynt ar hyn o bryd drwy rinwedd Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i chi a'ch aelodau, a byddwn yn fwy na pharod i roi tystiolaeth lafar i'ch Pwyllgor wrth iddo ystyried y Bil, pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

**National Assembly for Wales Finance Committee
Call for Information re National Health Service (Wales) Finance Bill**

Background

- By representing the seven Health Boards and three NHS Trusts in Wales, the Welsh NHS Confederation brings together the full range of organisations that make up the modern NHS in Wales. Our aim is to reflect the different perspectives as well as the common views of the organisations we represent.
- The Welsh NHS Confederation acts as an independent voice in the drive for better health and healthcare through our policy and influencing work and by supporting members with events, information and training. Member involvement underpins all our various activities and we are pleased to have all Local Health Boards and NHS Trusts in Wales as our members.
- On behalf of its members, the Welsh NHS Confederation welcomes the opportunity to respond to the Health and Social Care Committee's call for information on financial issues facing the NHS in Wales.

Position on the National Health Service (Wales) Finance Bill

- The Welsh NHS Confederation, on behalf of its members, welcomes the publication of the National Health Service (Wales) Finance Bill.
- For some time the NHS has been calling for Welsh Government to make different mechanisms available and greater flexibility to allow Health Boards to manage their end of year positions in a more balanced manner. Break even is a very precise requirement placed on Local Health Boards on 31st March each year and this has become a somewhat arbitrary date for the production of annual accounts.
- An environment needs to be created that rewards progress on good financial management, facilitates the development of clinically led proposals for service reconfiguration and, in the best scenario, allows transition and pump priming support for service development. Welsh Government should endorse the creation of reserves as good and expected best practice, particularly in such challenging financial times. Other public services have such mechanisms.
- The Welsh NHS Confederation believes the Bill will enable Local Health Boards to have a greater focus on medium term planning. The increased flexibility afforded in the Bill will enable plans to be developed at Health Board level that allow investment to be made in one year that supports the achievement of service change and reduced costs in future years.
- The Welsh Government has been clear that there will be rigour in the practical application of the Bill and that Local Health Boards will have to demonstrate rigorous service, workforce and financial planning. Local Health Boards' plans will need to be sufficiently robust over the whole three years, in order that a planned additional expenditure in one year can be allowed, based on strong certainty that the savings will be there in the second or third year to recover it. The Welsh NHS Confederation believes that such use of flexibility would be a very worthwhile improvement to the current financial regime.
- The Welsh NHS Confederation recognises that there is concern about a potential risk that additional flexibility would be used to provide 'cover' for a potential failure to balance expenditure to income in one year, and the 'problem' passed on to be resolved in following years – possibly the third of the three year period. The Welsh Government has been clear that to mitigate against this risk, robust monitoring and management arrangements would need to be exercised to prevent such a use of the flexibility. The flexibility mechanism should be exercised

for planned investment and secure savings, and not to cover difficulty in balancing income with expenditure.

- Strong discipline will need to be exercised by Local Health Boards to ensure that each case for investment in any one year can indeed deliver the cash savings in future years to repay that investment. There are schemes that reduce future growth in demand but these are not the same as providing cash savings from existing expenditure to repay the investment made.
- One area where it may be helpful to have further clarification from Welsh Government is whether there is the financial means at a central level to allow a number of Local Health Boards to exercise flexibility of additional expenditure in the same year.

Y Pwyllgor Cyllid

Dyddiad y cyfarfod: 9 Hydref 2013

Cyfeirnod: FIN(4)-18-13 (papur 4)

Craffu ar y Gyllideb 2013-2014

Pwy sy'n gyfrifol am bwrs y wlad? Dadansoddiad

Mae'r papur hwn gan wasanaeth allgymorth y Cynulliad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn y sioeau haf eleni.

Ceisio'r papur hwn nodi casgliadau, ac mae'n gwahodd yr Aelodau i ystyried:

- a) Beth yw'r ffordd orau o ymgorffori'r gwaith hwn yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft?
- b) Beth yw'r ffordd orau o ymateb i'r dymuniad i lais y cyhoedd gael ei glywed?

Methodoleg a maint sampl

Cafwyd 48 o ymatebion i'n harolwg. O gofio ei fod yn arolwg eithaf manwl, ynglŷn ag arian, mae hwn yn nifer rhesymol o ymatebwyr. Ond nid yw'n ein galluogi i ddod i gasgliadau pendant – dim ond i gael syniad o'r argraffiadau.

Rydym yn amcangyfrif y byddai hanner y bobl a lenwodd yr holiadur wedi bod yn trafod ag aelod o'r tîm allgymorth.

Casgliadau

C1. Roedd rhaniad eithaf cyfartal rhwng y rhai a wyddai fod y Cynulliad yn 'plismona' cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru, a'r rhai na wyddai hynny.

C2. Cafwyd rhywfaint o gydnabyddiaeth o rôl y Cynulliad yn asesu gwerth am arian.

C3. Roedd 62% o'r rhai a ymatebodd yn credu bod gwaith y Cynulliad yn



effeithio ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

C4. Sut y bydd y Cynulliad yn craffu ar waith y Llywodraeth? Yr holiadur drwy e-bost oedd y mwyaf poblogaidd, ac yna'r digwyddiadau arbennig (serch hynny, ni sgoriodd yr un o'r opsiynau fwy nag 8, ac mae hyn yn awgrymu nad oes gan y cyhoedd lawer iawn o wybodaeth ynghylch sut y byddwn yn cynnal gwaith craffu).

C5. Pan ddywedwyd sut y byddwn yn cynnal gwaith craffu, roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n draeanau o ran pwy oedd o'r farn fod hyn yn fwy na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl, yn llai na hynny neu'n cyfateb yn fras i'r disgwyliad.

C6. Roedd mwyafrif o'r farn nad oedd llais y cyhoedd yn cael ei glywed yn ddigonol yn y broses. Er bod traean yn credu ei fod yn cael ei glywed yn ddigonol!

C7. Roedd mwy o sylw gan y cyfryngau, ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel y ffyrdd mwyaf poblogaidd o ymgysylltu â llais y cyhoedd.

C8. Pan ofynnwyd a fyddent yn hoffi i'w safbwyntiau gael eu clywed, dywedodd 38% na fyddent, ac nid oedd 15% yn sicr. Mae hyn yn awgrymu nad oes gan oddeutu hanner y boblogaeth lawer o ddiddordeb mewn cymryd rhan weithredol ym mhroses y gyllideb.

Crynodeb

Mae ein harolwg yn atgyfnerthu canfyddiad Comisiwn Silk nad oes gan y cyhoedd wybodaeth ddofn na chyffredinol am broses y Cynulliad o graffu ar gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn awgrymu nad oes gan hyd at hanner pobl y wlad unrhyw ddiddordeb mewn cael gwybodaeth. Ymhlith y rhai a oedd â diddordeb, yr holiadur drwy e-bost oedd y cyfrwng o ddewis ganddynt ar gyfer ymgynghori â hwy.

Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Hydref 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Tudalen 18

Y Pwyllgor Cyllid

Craffu ar y Gyllideb 2013-2014

Crynodeb o'r Gwaith Allgymorth

Cefndir

Bu'r tîm Allgymorth yn hyrwyddo holiadur a luniwyd i geisio canfod beth oedd barn pobl am rôl y Cynulliad o ran craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a ddymunent gymryd rhan yn y broses hon yn y dyfodol, a sut yr hoffent wneud hynny.

Roedd yr holiadur wedi'i anelu at y cyhoedd a oedd yn ymweld â bws y Cynulliad dros yr haf mewn niferoedd o leoliadau ledled Cymru. Roedd yr ymarfer ymgysylltu hwn yn cynnwys un holiadur ar bapur.

Roedd yr holiadur yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar graffu ar y gyllideb a chyfranogiad y cyhoedd yn hynny, sef:

- Codi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod gan y Cynulliad rôl o ran "plismona" y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian cyhoeddus;
- Tynnu sylw at sut y mae'r Cynulliad yn archwilio'r cynlluniau gwariant hyn ar ran pobl Cymru;
- Canfod a yw pobl Cymru'n credu bod hyn yn ddigon, yn enwedig mewn perthynas â chasglu barn y cyhoedd ynghylch y broses graffu;
- Gofyn a hoffai'r cyhoedd roi eu barn ar y broses graffu; a
- Canfod a yw'r cyhoedd yn credu bod gwaith craffu'r Cynulliad yn cael effaith ar gyllideb, gwariant ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru.

Methodoleg

Fel rhan o waith y Pwyllgor Cyllid o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014, cynhyrchedd y tîm Allgymorth holiadur ar wybodaeth y cyhoedd am waith craffu'r Cynulliad ar y gyllideb, a sut y gall y Cynulliad helpu i hyrwyddo hyn a chael aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan yn y broses.

Roedd yr holiadur yn agored i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, a thargedwyd hwy:

- **mewn digwyddiadau ymgysylltu dros yr Haf; a**
- **thrwyr grwpiau ar deithiau i'r Senedd ac ymwelwyr â'r Senedd**




Ystadegau Allweddol

48 Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r holiadur

13 Cyfanswm y sioeau cenedlaethol a rhanbarthol lle y cafodd yr holiaduron eu hyrwyddo

Cyfanswm y Rhai a Gymerodd Ran yn ôl Rhanbarth

Mae'r diagram hwn yn dangos **cyfanswm** y bobl yr **ymgysylltwyd â hwy'n uniongyrchol** fel rhan o'r prosiect.



Dadansoddiad

Cyfanswm yr ymatebion gan y cyhoedd, fesul rhanbarth, yr ymgysylltwyd â hwy naill ai yn nigwyddiadau'r haf, drwy deithiau i'r Senedd neu drwy ymweliadau â'r Senedd:

- Gogledd Cymru: 12
- Canolbarth a Gorllewin Cymru: 20

Gogledd-ddwyrain Cymru: 16



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru


National
Assembly for
Wales
Tudalen 20

Gweithgaredd Cyllideb 2013-2014

Cwestiwn 1 – A oeddech yn gwybod bod y Cynulliad yn “plismona” cynlluniau gwariant y Llywodraeth fel hyn?


I ddiben cwestiwn un, darparwyd gwybodaeth gefndirol i gyfranogwyr ar broses y gyllideb, sef: cyfranogwyr yn cael eu darparu gyda gwybodaeth gefndir ar y broses y gyllideb, hynny sef:

- Bydd y Llywodraeth yn nodi ei chynlluniau ar gyfer gwario arian cyhoeddus yn ystod y flwyddyn sydd i ddod;
- Bydd y Cynulliad yn archwilio'r cynlluniau hyn ar ran pobl Cymru; a
- Bydd y Cynulliad yn penderfynu a yw'n cytuno ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth ai peidio.



Cwestiwn 2 – A ydych o'r farn bod Aelodau'r Cynulliad yn mesur a yw arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol ai peidio?

At ddiben cwestiynau dau a tri, darparwyd gwybodaeth gefndirol i'r cyfranogwyr ynghylch pa werthoedd y mae'r Cynulliad yn eu hystyried wrth graffu ar gynllun cyllideb Lywodraeth Cymru, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethau, gwerth am arian a phroses y gyllideb.




Cwestiwn 3 – A ydych yn credu bod gwaith y Cynulliad yn effeithio ar gynlluniau gwariant



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru


National
Assembly for
Wales

Llywodraeth Cymru ac ar yr atebolrwydd am arian cyhoeddus?




Cwestiwn 4 - Sut y bydd y Cynulliad yn gwneud hyn yn eich barn chi?


At ddibenion gweddill y cwestiynau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddewis sut yr oeddent yn credu bod y Cynulliad yn craffu ar waith y Llywodraeth ar hyn o bryd drwy ddewis o restr o rai o'r pethau y mae'r Cynulliad yn eu gwneud a rhai pethau nad yw'n eu gwneud.




Cwestiwn 5 – A yw hyn yn fwy neu'n llai nag yr oeddech yn ei ddisgwyl?




Cwestiwn 6 - O gofio natur dechnegol y gyllideb, a ydych o'r farn bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed yn ddigon amlwg yn y broses hon, er enghraifft, drwy sefydliadau cynrychioliadol?



Cwestiwn 7 - Os mai "Nac ydw" yw eich ateb, beth a allai'r Cynulliad ei wneud yn well yn eich barn chi, i sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei glywed?



Cwestiwn 8 – A hoffech gael lleisio eich barn yn ystod y broses hon?



Cwestiwn 9 – Os mai “Hoffwn” oedd eich ateb, dywedwch ym mha ffordd?

